

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



Cynhadledd Flynyddol 2017

a lansio...

GorweliOn Tai

Herio'r sector i fod yn feiddgar ac uchelgeisiol

16/17 Tachwedd 2017

Mercure Holland House, Caerdydd



Rhagair

- Stuart Ropke

Croeso i'n Cynhadledd Flynyddol 2017

Mae'n teimlo fel mai dim ond ddau funud aeth heibio ers lansio ein prosiect Gorwelion Tai yn ein cynhadledd flynyddol 2016 yn Stadiwm Principality, Caerdydd. Mewn byd ansicr sy'n newid yn gyflym, roeddem yn eglur ein bod angen gweledigaeth hirdymor ar gyfer cymdeithasau tai i'n helpu i ddylanwadu ar ac arwain yr amgylchedd polisi yng Nghymru.

Bellach ar ôl 12 mis pryd gwnaethom ymgysylltu a dros 500 o bobl o fewn cymdeithasau tai a thu hwnt, rydym yn barod i lansio ein gweledigaeth uchelgeisiol ac eang ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru. Heddiw, gallwn ddweud fod gan gymdeithasau tai, dros y 20 mlynedd nesaf, yr uchelgais, adnoddau a'r hyder i gael mwy o effaith mewn cymunedau a helpu pobl ym mhob rhan o'r genedl sy'n byw mewn trefi, dinasoedd a chymunedau gwledig o bob adran o'r boblogaeth beth bynnag eu hamgylchiadau tai ar hyn o bryd. Bydd adeiladu a rheoli tai cymdeithasol a darparu sicrwydd cartref diogel ar gyfer rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas bob amser yn gonglfaen gwaith cymdeithasau tai yng Nghymru. Ond mewn byd lle nad ydym yn adeiladu digon o gartrefi, a lle mae llawer o gymunedau angen eu hadfywio, cymdeithasau tai hyblyg ac arloesol sydd yn y sefyllfa orau i chwarae'r rôl allweddol mewn adeiladu cymunedau y mae pobl eisiau byw ynddynt.

Wrth gwrs, ni all unrhyw weledigaeth ac uchelgais barhau'n anhyblyg yn wyneb newid, ac mae rhaglen ein cynhadledd eleni yn adlewyrchu bod yr amgylchedd gwleidyddol a gweithredu'n parhau yn y pair. Yn oes newyddion ffug bydd Ben Page, Prif Weithredydd Ipsos MORI, yn edrych ar y camsyniadau sydd wedi gwreiddio ymysg y cyhoedd. Bydd y newyddiadurwr Steve Richards yn rhoi ei farn ar yr amgylchedd ôl-Brexit a bydd yr Athro Calvin Jones yn amlinellu pam fod Cymru yn fwy bregus i Brexit caled nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y Deyrnas Unedig. Os nad oes dim arall yn digwydd yn y 12 mis nesaf cyn ein Cynhadledd flynyddol, mae'n hanfodol ein bod yn cael peth eglurder am ein cyrchfan a'n huchelgais fel cenedl wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd ac arweinyddiaeth wleidyddiaeth ddewr ar egwyddorol.

Wrth i'r trobwl gwleidyddol chwyrlio, mae'r angen yn dal i fod i ni wella yn barhaus y gwasanaethau a gynigiwn i'n cwsmeriaid, a bydd Diwrnod 2 ein rhaglen yn canolbwyntio ar ymyriad drwy strategaeth gwasanaeth cwsmeriaid a thrawsnewid digidol. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd o feddwl sydd ei hangen i gyflawni ein huchelgeisiau gyda Andy McCann, Cyfarwyddyd Perfformiad DNA Definitive. Ein huchelgais yn Cartrefi Cymunedol Cymru yw gwella flwyddyn ar flwyddyn y gwasanaethau a'r cynadleddau a gynigiwn i'n haelodau a'n cwsmeriaid. Gyda rhaglen y gynhadledd flynyddol yma, gobeithiwn y byddwch yn cytuno i ni godi'r bar eto.

Mwynhewch y gynhadledd.



Diwrnod 1 - Dydd Iau 16 Tachwedd, 2017

Bore

09:00 Cofrestru, Lluniaeth a Rhwydweithio

09:30 Croeso

 **Sian Lloyd**, Darlledwraig a Newyddiadurwraig, Cadeirydd y Gynhadledd
@SianLloydnews

09:40 Gorwelion Tai – Lansio gweledigaeth y sector

 **Stuart Ropke**, Prif Swyddog Gweithredol, Cartrefi Cymunedol Cymru
@Stuart_CHC

10:00 Newid Canfyddiadau - Rhoi ein gweledigaeth ar waith

 **Ben Page**, Prif Weithredydd, Ipsos Mori
@benatipsosmori

Amlygodd arolwg Peryglon Canfyddiadau 2016 Ipsos pa mor anghywir oedd y cyhoedd ar draws 40 gwlad am y materion byd-eang allweddol a nodweddion y boblogaeth yn eu gwledydd. Bydd Ben yn esbonio ystyr y camsyniadau hyn ar gyfer enw da ein sector a'r hyn sydd angen i ni wneud i'w herio er mwyn cyflawni ein gweledigaeth.

EGWYL 11:15 Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio

11:45 Y Tirlun Gwleidyddol ac Economaidd

 **Steve Richards**, Colofnydd ar gyfer Guardian, Times ac Annibynnol a Chyflwynwr Wythnos Radio 4 yn San Steffan
@SteveRichards14

Ysgrifennodd Steve bod Brexit yn ffigar-êt emosiynol ac ni allwn fynd oddi arno, Heddiw, bydd Steve yn rhoi ei farn ar le Cymru wrth fwrdd Brexit, os ydym yng nghysgod yr Alban a sut olwg sydd ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

12:00 Heriau'r Dyfodol

 **Sophie Howe**, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
@futuregencymru

Bydd Sophie yn herio'r sector i fod yn feiddgar a pharatoi ar gyfer 2036, a bydd yn trafod sut y gall y gwaith a wnawn fel sector fod â rôl fawr wrth gyflenwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

12:30 Cymru a'r Farchnad Sengl: Asesu Bygythiad

 **Yr Athro. Calvin Jones**, Adran Economeg ac Uned Ymchwil i Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd
@CardiffBusiness

Wrth i ni ddechrau ar y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r agweddau gwahanol ac effeithiau gwahanol Brexit ar draws y Deyrnas Unedig yn cael sylw cynyddol. Mae'r Athro Jones yn honni fod Cymru yn fwy bregus i Brexit caled na rhanbarthau eraill, beth fydd yr effaith a sut y gallwn fynd ati i ddiogelu ein sefydliadau.

Dydd 1 - Dydd Iau 16 Tachwedd, 2017

EGWYL 13:15 Cinio a Rhwydweithio

Prynhawn

Gweithdai

14:15 ⚙️ Gorwelion Tai – Sut y gwnaethom lunio'r weledigaeth

🗣️ Mike Phillips, Hopp

@HoppStudio

Beth sydd angen i gymdeithasau tai ei wneud i gyflawni'r weledigaeth, beth sydd o fewn ein gallu ein hunain i'w newid a beth sydd tu allan i'n dylanwad uniongyrchol? A yw'r sector yn barod ar gyfer yr heriau sydd i ddod?

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dealltwriaeth fanwl o'r weledigaeth
- Cael cyngorion ymarferol ar sut i roi'r weledigaeth ar waith fel sector a sut i'w hyrwyddo o fewn eich sefydliad eich hun

⚙️ Llety â Chymorth, beth yw'r dyfodol?

🗣️ Paul Webb, Llywodraeth Cymru

@LlywodraethCym

O fis Ebrill 2019, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu datganoli cyllid tai â chymorth uwchben y gyfradd Lwfans Tai Lleol i Gymru. Buom yn gweithio gydag aelodau i ddeall yn llawn faint a chost cyflenwi tai â chymorth yng Nghymru a bydd Paul yn rhoi diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma.

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dealltwriaeth o'r broses i ddatganoli cyllid tai â chymorth i Gymru
- Cael cyfle i ddylanwadu ar sut y bydd y polisi yn gweithio

⚙️ Tai, Integreiddio, Datganoli ac Adfywio

🗣️ Gordon Perry, Ark | Huw Thomas, Cyngor Dinas Caerdydd

@gordonphousing

@huwthomas_Wales

Gyda nifer o ddeliau datganoli ar draws y Deyrnas Unedig, sut y gall cymdeithasau tai adfywio cymunedau a rhyngweithio gyda deliau dinesig? Yng Ngherdydd bydd cyfle i gymdeithasau tai fanteisio ar y ddêl a chanfod beth fydd yr effaith ar gymunedau cyfagos.

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dealltwriaeth well o ddeliau dinesig a sut maent yn rhyngweithio gyda thai ac adfywio
- Cael cyfle i glywed gan y chwaraewyr allweddol wrth gyflenwi dêl Dinas Caerdydd

⚙️ Gwersi i'w dysgu o Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

🗣️ Cynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Yn diyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dewch i glywed beth oedd barn y pwyllgor am y sector, pam y gwnaethant eu hargymhellion a pha gamau y credant sydd angen i gymdeithasau tai eu cymryd nesaf?

Dydd 1 - Dydd Iau 16 Tachwedd, 2017

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dirnadaeth o hanfod ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Cael cyfle i ddylanwadu a herio'r canfyddiadau

⚙️ Arwain gydag Ymagwedd Gwybodus am Drawma mewn Tai

🗣️ Charlotte Waite, Hwb ACES, Llywodraeth Cymru

@CharlotWaite

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi gwybodaeth am ACES (profiadau niweidiol mewn plentyndod) a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y cynllun peilot ACES a Thai ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dirnadaeth o hanfod ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Cael cyfle i ddylanwadu a herio'r canfyddiadau

EGWYL 15:15 Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio

15:45 Mae pawb ychydig yn seicopathig!

🗣️ Jon Ronson, Awdur 'The Psychopath Test'

@jonronson

Wedi'i ddisgrifio fel un o ysgrifenyddion ac awduron digri gorau ein cyfnod, aiff Jon â ni ar antur bwerus i fynd gwallgof, sy'n dadlennu gwirioneddau peryglus a gofyn cwestiynau difrifol am sut y diffiniwn normalrwydd mewn byd lle cawn ein barnu'n gynyddol gan ein hymylon mwyaf gwallgof. Ydych chi'n barod i gymryd y Prawf Seicopath?

CAU 16:45 Diwedd Diwrnod 1

17:15 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CHC

🗣️ Cadeirir gan Debbie Green, Cadeirydd CHC a Phrif Weithredydd, Grŵp Tai Coastal

19:30 Derbyniad Diodydd

★ Noddwyd drwy garedigrwydd Lloyds Bank

20:00 Cinio'r Gynhadledd

🗣️ Siaradwr cyn-cinio Michael Sheen (Gwahoddwyd)

Dydd 2 - Dydd Iau 17 Tachwedd, 2017

09:00 Cofrestru ac Arddangosfa

09:30 Trawsnewid Busnes drwy Wasanaeth Ardderchog i Gwsmeriaid

🗣️ **Stuart McFadden**, Pennaeth Anawsterau Ariannol, Monzo

@monzo

Wedi'i ddisgrifio fel banc y dyfodol, daeth Monzo yn adnabyddus am ymyrryd ar ddiwydiant bancio difflach a thraddodiadol. Bydd Stuart yn esbonio sut mae peidio ofni cymryd risg a rhoi gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid drwy fod yn dryloyw ac agored i bawb yn ddigwyddiad bob dydd i Monzo.

10:15 Y Wyddor tu cefn i Arweinyddiaeth

🗣️ **Allison Taylor**, Central Consultancy and Training

Ai dim ond cyfuniad o eiriau mwys yw niwrowyddoniaeth arweinyddiaeth? Drwy ddisgyblaeth niwrowyddoniaeth mae gennym yn awr wybodaeth sy'n ein helpu i wneud cysylltiad rhwng byd gwyddonol yr ymennydd a byd busnes.

Yn y sesiwn yma, cewch cyfle i edrych ar bynciau drwy lens niwrowyddoniaeth a chael cyfle i fwrw peth goleuni ar:

- gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd o risg, amwysedd neu ansicrwydd
- pryd a sut y penderfynwn wneud newid cyflawn mewn cyfeiriad a ym mha amodau mae arweinwyr yn fwy arloesol

Beth allai hyn ei olygu i chi, eich tîm, eich sefydliad?

EGWYL 11:00 Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio

Sesiynau Datrysiaid

11:30 ⚙️ Trawsnewid Digidol...Mwy na Thechnoleg Gwybodaeth

🗣️ **Victoria Ford**, Perago-Wales

@PeragoWales

Dewch i gwrdd â'r tîm fu'n hybu'r trawsnewid digidol yn y DVLA. Byddant yn rhoi enghreifftiau ymarferol o symud gwasanaethau traddodiadol i ddigidol yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus a'r hyn y gall cymdeithasau tai ei ddysgu o hyn.

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael gwybod am gamau ymarferol i arwain a chyflenwi newid o fewn eu sefydliad
- Cael eu hysbrydoli i oresgyn heriau trawsnewid digidol

⚙️ Newid Canfyddiadau Ar-lein – a sut i ddweud eich stori yn well.

🗣️ **Helen Reynolds**, Social for the People a Catherine Little

@HelReynolds

Er mwyn dweud ein stori a'n gweledigaeth, mae angen i ni herio a newid canfyddiadau pobl. Sut mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r bobl o fewn ein sefydliadau i hyrwyddo'r cartrefi a'r gwasanaethau a ddarparwn a newid canfyddiadau'r cyhoedd.

Dydd 2 - Dydd Iau 17 Tachwedd, 2017

Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn:

- Cael dealltwriaeth o rym y cyfryngau cymdeithasol a sut i greu cynnwys rhagorol i ddweud eu stori ar-lein yn y ffordd orau
- Cael enghreifftiau o sut mae sefydliadau wedi gwneud hyn

⚙️ Cartrefu Poblogaeth sy'n Heneiddio

🗣️ **Abigail Davies**, Cyfarwyddyd Cysylltiol - Ymgynghoriaeth Tai, Savills
@Savills

Cafodd maint her heneiddio poblogaeth hŷn ei wneud yn glir yn adroddiad data Savills a baratowyd ar gyfer Gorwelion Tai. Dewch i glywed gan Savills ar ddatrysiadau ymarferol i'r her.

⚙️ Y Wyddoniaeth tu ôl i Arweinyddiaeth

🗣️ **Allison Taylor**, Central Consultancy & Training

Yn dilyn ei phrif sesiwn, aiff Allison â chi ymhellach ar daith niwrowyddoniaeth.

12:30 Creu Gweledigaeth ac Ymddiriedaeth

🗣️ **Liz Cross**, Cyfarwyddyd Sefydlu The Connectives (Gwahoddwyd)

Mae Liz yn credu i Gaudi ei chael yn iawn pan ddechreuodd y Sagrafa Familia, gan wybod na fyddai'n cael ei gwblhau yn ystod ei oes. Creodd weledigaeth ddigon mawr, mynd â hi rhagddi ac yna ymddiried y byddai eraill ar ei ôl yn cyfrannu a'i chwblhau gydag integriti. Beth allwn ni ei ddysgu o'r enghraifft hon wrth fynd â gweledigaeth Gorwelion Tai ymlaen?

12:45 Herio'r Ffordd o Feddwl

🗣️ **Andy McCann**, Hyfforddydd Perfformiad a Chyfarwyddwr DNA Definitive
@theandymccann

Os ydych bob amser yn gwneud yr hyn a wnaethoch bob amser, byddwch bob amser yn cael yr hyn a fu gennych bob amser'. Mae gennym weledigaeth newydd ar gyfer y sector, oes ganddo ni y ffordd gywir o feddwl i gyflawni hynny? Mae angen i ni fod yn feiddgar! Bydd y sesiwn yma'n rhoi cyfle iawn i ddarganfod sut y gallwn ymyrryd mwy i arloesi ein cynnyrch a gwasanaethau ar budd ein tenantiaid a'n sefydliadau.

14:15 Casgliadau'r Gynhadledd

CLOSE 14:25 Diwedd Diwrnod 2 - Cinio a Gadael